

Z, Peniarth 259B, f. 70vb

Cynghawredd – Holi Alltud

Val hyn y dyleir holi allddvd: gwedi ymrwymer ynghyfraith ac erchi o'r ynad vddvnt ymddywedvd, yna y dyly yr hawlwr nev davawd drosdo dywedvd, 'Messvr vy hawl i y gwr hwn,' a henwed y gwr ar yr allddvd. A henwed yr allddvd. 'A dylyv ohonod ti vod yn allddvd imi a bod dy rieni yn allddvdion i'm rieni i ac y dylei dithe vod yn allddvd i mine. Ac o gwedi hyny, y may i mi ddigawn a'i gwyr ar rygychwyn ohonod yn anghyfraithawl i wrthyf. Ac o gwedy hyny y may i mi ddigon a'i gwyr, ac ar y gyfraith y dodaf y dyli di ddyvod drachefyn.' Yna y dyly yr amddiffynwr dywedvd vn o dri ateb, ai adde, ai gwadv, ai arddelw kyfreithawl val na bo rraid iddo i wadv. Os adde a wna, ayd y'w allddvdayth drachefyn. Os i wadv a wna, mwynhayr gwybyddiaid yr hawlwr a llyssed yll wynt os myn. Os ynte a ddywaid, 'Priodawr wyf i, a digawn ym o geidwaid a gattwo vymbriodolder genyf, ac ar y kyfreith y dodaf na ddyly priodawr ateb o hawl allddvdayth,' yna y dyly yr ynad kymrvd keidwaid. Ac o byddant kwbwl a braint yn llaw y gwyr, barned yr ynad ef yn rydd; ac vellv y may am allddvd os ef ehvn a ymwrthladd a'r hawl. Os yvchelwr arall a vydd yn ymberchenogi o'r allddvd a bod ymrysson pwy a dyly ymrwymo yn y [gyfreith], kyfreith a ddywaid panyw yr vchelwr a ddyly ymrwymo dros i allddvd val dros da arall. A threch yw i geidwaid ef i gadw i allddvd ganthaw noc yr eiddo, ac no gwybyddiaid yr hawlwr; kani chyingain na thystyon na gwybyddiaid ar dor keidwaid. A chyd

boed perchenawc dyn ar i allddvd val ar dda arall, nid vn vrait;
ni ddylyeir damdwng allddvd.

Z

Cynghawsedd – Holi Alltud

Fel hyn y mae'n iawn holi alltud: wedi iddynt ymrwymo yn y gyfraith ac i'r ynad ofyn iddynt lefaru, yna y mae'n iawn i'r hawlwr neu'r un sydd yn llefarydd drosto ddweud, 'Dyma fesur fy hawl i ar y gŵr hwn,' ac enwed y gŵr sydd dros yr alltud. Ac enwed yr alltud. 'Ac mae'n iawn i ti fod yn alltud i mi a bod dy rieni yn alltudion i'm rhieni i ac y dylet tithau fod yn alltud i minnau. Ac os gwedi di hynny, mae gen i ddigon a'i gŵyr i ti gychwyn yn anghyfreithiol oddi wrthyf. Ac os gwedi di hynny mae gen i ddigon a'i gŵyr, ac ar y gyfraith y dodaf ei bod yn iawn i ti i ddyfod yn ôl drachefn.' Yna y mae'n iawn i'r amddiffynnwr ddweud un o dri ateb, naill ai addef, neu wadu, neu arddelw cyfreithiol fel na bo rhaid iddo ei wadu. Os addef a wna, aed i'w alltudiaeth drachefn. Os ei wadu a wna, defnyddier gwybyddiaid yr hawlwr a gwrthoded hwy i gyd os myn. Os dywed yntau, 'Priodor wyf i, ac mae gen i ddigon o geidwaid a gadwo fy mhriodolder i mi, ac ar y gyfraith y dodaf nad yw'n iawn i briodor ateb hawl alltudiaeth,' yna y mae'n iawn i'r ynad gymryd ceidwaid. Ac os byddant yn gyflawn a braint yn llaw y gwŷr, barned yr ynad ef yn rhydd; ac felly y mae am alltud os ef ei hun a fydd yn gwrthwynebu'r hawl. Os uchelwr arall a fydd yn hawlio perchnogaeth yr alltud a bod ymryson ynghylch pwy a ddylai ymrwymo yn y gyfraith, dywed y gyfraith mai iawn yw i'r uchelwr ymrwymo dros ei alltud fel dros unrhyw eiddo arall. Ac mae ei geidwaid ef yn drech i gadw'r alltud gydag ef nag i gadw ei eiddo,

ac yn drech na gwybyddiaid yr hawlwr; oherwydd ni chaniateir na thystion na gwybyddiaid yn erbyn ceidwaid. Ac er bod dyn yn berchennog ar ei alltud fel ar unrhyw eiddo arall, nid ydynt yn un fraint; nid yw'n iawn i ddamdwng alltud.

H, Peniarth 278, t. 169

Cynghawsedd – Trais

Os treis gwreic a gwynir, cwynet o'r pryt bwygilydd, a chyrchet y lys dan waedd, a llef, a chwyn, os geill. Gwedy y rhwymer yng cyfreith, dywedet y chyngaws drosti y threissyaw, a'e hamerchi y dydd a'r dydd, yn y lle a'r lle; a dywedet bot ohonaw genthi o'e hanfodd; ac y dreis a gyrret yn gyfreithyawl y greir y dreis deirgwaith, ac ymafaelet a'e galy, a'r sarhaet a'r mefyl a'r amarch. Onys gwatta yr amddiffynnwr y greir deir gweith, tystyet y gyt a'r un tu y chyngaws drosti, na chwyl wadws, a galwet am frawt, sef a wyl y gyfreith, yna dylu o'r amddiffynnwr wadu y dreis a dec gwyr a deugeint gyt ac ef, heb gaeth, heb alltut. Onys dichawn i wadu, talet teir punt y'r arglwydd, a'e hamobyr drosti, a'e sarhaet; os gwreic fydd, wrth freint y gwr; ony bydd, wrth freint y brawt. Os yr amddiffynnwr a ddyweit fal hyn: 'O threissywyt tydi, nyt myfi a'th dreissyawdd di, namyn arall.' 'Dyoer', heb y cyngaws y wreic, 'rhagot ti y cwyneis i, ac ydd wyf yn sefyll y'm cwyn, a thydi a ddaliwyd ar y weithret, a rheit yw y titheu, ac y bawb y cwyrer rhacddaw, y neill ae addef, ae gwadu, ae arddelw cyfreithyawl; nyt wyt titheu yn dywedyt arddelw cyfreithyawl drossot, am hynny mi a rof ar y cyfreith y dily ditheu y neill ae addef, ae gwadu, a galw ydd wyf am frawt.' Y gyfreith a ddyweit y ddyly ef un o'r rhei hynny yn ehegyr; canys otheu ef dros fessur cyfreithyawl may yn addef o cyfreith; sef yw messur cyfreith, cyn tystu o'r hawlwr deirgweith arnaw, nat atebws. Os yr amddiffynnwr a ddyweit: 'Pe rhon fot yn wir a yrreist di arnaf,

ny ddylywn i ddywygyaw yt am y dreis; sef echos yw, y dyd ydd wyt ti yn haeru arnaf ddwyn treis arnat ydd oedd gyt a thi wr arall . . . ac a dducpwyd treis arnat; ac ar y cyfreith y dodaf i na ddlyaf diwc y dreis ydd wyt yn y gyrru arnaf, a gwir a ddyweit o cyfreith; o gwedy di nat oedd, mi a brofaf drwy wybyddyeit y bot; os addefi, bit ar a gefeist. 'Dyoer,' heb y wreic, 'ydd oedd gyta minneu ddyn arall yr bychanet fo eithyr mab; ac ar y cyfreith y dodaf i na thalaf y iawn, a mi a brofaf y fot yn lle arall.'

H

Cynghawsedd – Trais

Os cwynir ynghylch trais gwraig, cwyned o un cyfnod i'r llall, ac aed i'r llys gyda gwaedd, a llef, a chwyn, os yw'n bosibl. Wedi ymrwymo yn y gyfraith, dywedded ei chyngaws drosti iddi gael ei threisio, a'i hamharchu ar y dydd a'r dydd, yn y lle a'r lle; a dywedded iddo gael cyfathrach â hi o'i hanfodd; a gwneled gyhuddiad cyfreithiol o drais ar y crair dair gwaith, a gafaeled hi yn ei gala, a'r sarhaed a'r gwarth a'r amarch. Oni wada'r amddiffynnwr hyn ar y crair dair gwaith, tystied yn yr un modd ei chyngaws drosti, na wadodd yn gyflawn, a galwed am farn, sef yr hyn a wêl y gyfraith, ac yna y mae'n iawn i'r amddiffynnwr wadu'r trais a deg gŵr a deugain gydag ef, heb ŵr caeth, heb alltud. Oni all ei wadu, taled dair punt i'r arglwydd, a'i hamobr drosti, a'i sarhaed; os gwraig fydd hi, yn ôl braint ei gŵr; os na fydd, yn ôl braint ei brawd. Os dywed yr amddiffynnwr fel hyn: 'Os treisiwyd tydi, nid myfi â'th dreisiodd di, ond un arall.' 'Duw a ŵyr', ebe cyngaws y wraig, 'yn dy erbyn di y cwynais i, ac yr wyf yn sefyll wrth fy nghwyn, ac fe ddaliwyd di wrth y weithred, a rhaid i tithau, ac i bawb y cwyrer yn ei erbyn, i naill ai addef, neu wadu, neu [gymryd] arddelw cyfreithiol; nid wyt tithau yn datgan arddelw cyfreithiol drosot, am hynny mi roddaf ar y gyfraith ei bod yn iawn i tithau i naill ai addef, neu wadu, ac yr wyf yn galw am farn.' Dywed y gyfraith ei bod yn iawn iddo ef wneud un o'r rhai hynny ar unwaith; oherwydd os âi ef dros fesur cyfreithiol mae yn addef yn ôl cyfraith; dyma yw mesur cyfraith, nad

atebodd cyn i'r hawlwr dystio tair gwaith yn ei erbyn. Os dywed yr amddiffynnwr: 'Pe rhoddwn fod yr hyn y cyhuddaist fi ohono yn wir, nid yw'n ddyletswydd arnaf i wneud iawn i ti am y trais; dyma'r rheswm, y dydd yr wyt ti yn haeru i mi dy dreisio yr oedd gŵr arall gyda thi . . . ac fe dreisiwyd di; ac yr wyf yn ei ddodi i'r gyfraith nad oes dyletswydd arnaf i wneud iawn am y trais yr wyt ti yn fy nghyhuddo ohono, a gwir a ddywed yn ôl y gyfraith; os gwedi di nad oedd, mi brofaf i trwy wybyddiaid ei bod; os addefi, bydd yn fodlon ar yr hyn a gefaist.' 'Duw a ŵyr,' ebe'r wraig, 'yr oedd gyda minnau ddyn arall er bychaned y bo ac yntau ond yn blentyn; ac fe ddodaf ar y gyfraith na thalaf iawn, ac fe brofaf ei fod mewn lle arall.'